

# **Cyngor Partneriaeth Cymru**

## **7 Gorffennaf 2021 - 11.00-12.30 drwy MS Teams**

**Nodyn o'r cyfarfod**

**Dan gadeiryddiaeth y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**

### **Eitem 1 ar yr Agenda: Croeso a Chyflwyniadau**

Croesawodd y Gweinidog yr holl aelodau a nododd ei diolch i bawb am gydweithio drwy gydol y pandemig Covid-19.

Nododd y Gweinidog mai dyma'r tro cyntaf iddi gadeirio'r Cyngor Partneriaeth a dywedodd gymaint yr oedd yn edrych ymlaen at weithio gyda'r aelodau drwy'r fforwm hwn ar faterion sydd o bwys i Gymru.

### **Eitem 2 ar yr agenda – Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru**

Amlinellodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol gyd-destun Rhaglen Lywodraethu newydd Llywodraeth Cymru a thynnodd sylw at rai o'r blaenoriaethau allweddol, gan gynnwys:

- Mae'n seiliedig ar werthoedd sy'n arbennig o Gymreig: cymuned, cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol.
- Trawsnewid ein gwasanaethau gofal presennol yn system newydd hyblyg, ymatebol a mwy integredig a fydd yn helpu pobl i fyw bywydau ystyrlon ac annibynnol am gyfnod hirach ac a fydd yn cefnogi'r plant, y bobl ifanc a'r teuluoedd hynny sy'n wynebu'r heriau mwyaf.
- Cefnogi a datblygu canol ein trefi a'n dinasoedd.
- Ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn. Drwy gynlluniau gweithredu hinsawdd lleol a Chynllun Sero Net Cymru, bydd gan Gymru'r uchelgais a'r ddarpariaeth genedlaethol a lleol ar waith i ymateb i'r argyfwng hinsawdd a chyrraedd sero net yn y sector cyhoeddus erbyn 2030.
- Byddwn yn parhau i gefnogi ein partneriaid ym maes llywodraeth leol ac i fuddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus lleol a democratiaeth leol.
- Cefnogi traddodiad hir Cymru o wirfoddoli, elusennau lleol, grwpiau ffydd a sefydliadau cymunedol
- Diwygio gwasanaethau digartrefedd yn sylfaenol i ganolbwyntio ar atal ac ailgartrefu'n gyflym, yn ogystal â chefnogi tai cydweithredol, mentrau a arweinir gan y gymuned, ac ymddiriedolaethau tir cymunedol.

Dywedodd y Gweinidog na fydd dim o hyn yn hawdd ond y byddwn yn gweithio gyda'n gilydd fel yr ydym wedi'i wneud yn ddiweddar yn ystod y pandemig. Nododd y Gweinidog fod y Prif Weinidog bob amser yn awyddus i bwysleisio bod y Rhaglen Lywodraethu yn un i Gymru gyfan ac i bob gwasanaeth cyhoeddus, nid i Lywodraeth Cymru'n unig. Gwahoddodd y Gweinidog yr aelodau i feddwl am y blaenoriaethau ar

gyfer eu sectorau eu hunain sydd o fewn y Rhaglen ac i ystyried y rôl yr hoffent weld y fforwm hwn yn ei chael wrth weithio tuag at gyflawni'r rheini.

Croesawodd y Cynghorydd Andrew Morgan, fel Arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), y dull gweithredu a chytunodd ei bod yn bwysig ymgysylltu'n gynnar, a bod llywodraeth leol yn helpu i siapio'r ffordd y maent hwy a Llywodraeth Cymru yn cydweithio, gan adeiladu ar y model a ddatblygwyd drwy gydol y pandemig er mwyn cydweithio'n gynnar ar flaenoriaethau'r Rhaglen er budd gwasanaethau a dinasyddion.

Cadarnhaodd y Gweinidog ei bwriad i barhau â'r gwaith o ymgysylltu'n rheolaidd, gan gynnwys ymgysylltu'n gynnar ar bolisïau a strategaethau i'w cyflawni. Byddai hyn yn cynnwys hwyluso cysylltiadau â Gweinidogion eraill sy'n arwain ar bortffolios penodol.

Roedd y drafodaeth rhwng yr aelodau wedyn yn cynnwys y meysydd canlynol:

- Yr angen am drafodaethau ar y cyd ar newid diwrnodau ysgol a phrydau ysgol am ddim.

**CAM GWEITHREDU:** Sicrhau cyfarfod dilynol gyda'r Gweinidog Addysg

- Ymrwymiad y maes plismona yng Nghymru i barhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a chydweithwyr ym maes llywodraeth leol. Roedd croeso arbennig i'r ffaith fod cyfeiriad at swyddogion cymorth cymunedol ychwanegol yn y Rhaglen Lywodraethu.
- Pwysig bod y gwaith ar ganol trefi a dinasoedd hefyd yn cynnwys ffocws ar ardaloedd a phentrefi gwledig.
- Tai ac ail gartrefi, yn enwedig helpu pobl i aros yn eu cymunedau drwy dai fforddiadwy.

**CAM GWEITHREDU:** Rhannu dolen at ddatganiad ysgrifenedig y Gweinidog Newid Hinsawdd.

- Mynd i'r afael â digartrefedd a chysgu ar y stryd, a phwysigrwydd cydweithio ar y mater hwn. Adeg y Nadolig diwethaf nid oedd gan Abertawe unrhyw bobl ar y stryd (i lawr o 20) ac ni ellid bod wedi cyflawni hyn heb gyllid ac ymrwymiad Llywodraeth Cymru. Cadarnhaodd y Gweinidog yn ddiweddar y cytunwyd ar gyllid ychwanegol drwy gronfa galedi llywodraeth leol ar gyfer digartrefedd, a chadarnhaodd ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i gefnogi hyn.

### **Eitem 3 ar yr agenda – Gweithio tuag at Etholiadau Llywodraeth Leol (Mai 2022)**

Roedd yr eitem hon yn canolbwyntio ar nifer o feysydd, gan gynnwys:

- Syniadau'n cael eu hystyried i helpu i gynyddu lefelau ymgysylltu mewn democratiaeth leol, yn enwedig ymhlith pobl ifanc, gan eu hannog i bleidleisio. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i weithio gyda chydweithwyr llywodraeth leol i ddatblygu syniadau creadigol ac i dreialu'r rhain yn ystod yr etholiadau llywodraeth leol fis Mai 2022.

- Codwyd yr anawsterau o ran annog pobl i sefyll mewn etholiadau hefyd, yn enwedig mewn perthynas â'r effaith ar fywydau personol pobl, cyflogaeth a chyfrifoldebau rhieni. Teimlid bod yr heriau hyn yn arbennig o ddwys mewn ardaloedd gwledig.
- Bwriedir cynnal ymgynghoriad ar reolau ymddygiad mewn etholiadau llywodraeth leol, gan gynnwys yr etholfraint a datganiadau ymgeiswyr.
- Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio cefnogaeth awdurdodau lleol i ymgyrch gyfathrebu a gwella ymwybyddiaeth ynglŷn ag etholiadau, gan hyrwyddo pwysigrwydd llywodraeth leol ac annog pobl i bleidleisio.
- Llywodraeth Cymru i ymgysylltu â llywodraeth leol yn fuan i ddatblygu arolwg ymgeiswyr, gan ofyn am sylwadau i lywio cynnwys yr arolwg a'r dull.
- Adolygiadau ffiniau – mae'r comisiwn wedi cwblhau pob un o'r 22 a'r bwriad yw sefydlu'r gorchmynion hynny erbyn diwedd mis Medi, ond gan gyhoeddi'r penderfyniadau hynny cyn gynted â phosibl. Nid dyma ddiwedd y broses, fodd bynnag, gan fod y Gweinidog wedi nodi rhai o'r dadleuon y mae rhai awdurdodau wedi'u cyflwyno. Nid yw'r gyfraith bresennol yn caniatáu i'r comisiwn ymgynghori ar ei gynigion terfynol, ond mae'r Gweinidog yn awyddus i fynd i'r afael â'r mater hwn yn y tymor hwy.
- Materion a godwyd ynghylch hepgor pobl ifanc 16 ac 17 oed o adolygiadau'r comisiwn ffiniau, gan effeithio ar faint y ward a'r boblogaeth, a'u cysylltu â lefelau amddifadedd cymdeithasol.

Roedd y syniadau ar gyfer annog mwy o bobl i bleidleisio yn cynnwys:

- Addysg wleidyddol mewn ysgolion a thrwy gydol oes oedolion.
- Pan fydd Arweinwyr ac Aelodau Etholedig yn cynnal cyfarfodydd mewn ysgolion, gallai Swyddogion Gwasanaethau Democratiaidd fynychu i gofrestru pobl ifanc 16 ac 17 oed.
- Cytunodd CLILC yn ddiweddar i weithredu argymhellion Adroddiad Democratiaeth Cyngor Casnewydd. Mae iddo gefnogaeth drawsbleidiol ac mae'n adeiladu ar yr ewyllys aruthrol ar draws y teulu llywodraeth leol i fod mor amrywiol â phosibl. Wedi ymrwymo i ddatganiadau amrywiaeth yr haf/hydref hwn.
- Mae'n bwysig ymgysylltu â'r genhedlaeth iau drwy eu sianeli eu hunain fel podlediadau cynghorau ieuenctid a dylanwadwyr tiktok.

#### **Eitem 4 – Datgarboneiddio**

Cyflwynwyd yr eitem gan y Cynghorydd Andrew Morgan, Arweinydd CLILC. Tynnodd y Cynghorydd Morgan sylw at ddau faes penodol i ganolbwyntio arnynt:

- Pwysigrwydd adeiladu ar y berthynas a ddatblygwyd dros 18 mis diwethaf y pandemig Covid pan mae Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol wedi gweithio'n agosach nag yn ystod unrhyw adeg arall mewn hanes. Gwnaeth y Cynghorydd Morgan y pwynt y bydd mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd hefyd yn gofyn am y berthynas agos honno.
- Mae buddsoddiad ar hyn o bryd mewn datblygu strategaethau ac ymyriadau, ond os ydym am fynd i'r afael â hyn mae angen inni edrych ar faterion mwy, ee byddai cost ychwanegol sylweddol o ran galluogi ysgolion i fod yn garbon

niwtral; ac yn ehangach mae angen ystyried ailflaenoriaethu a thargedu cyllid i sicrhau mwy o effaith ar leihau allyriadau carbon drwy dargedu arian mewn mannau eraill. Mae'n golygu buddsoddiad sylweddol a newid sylweddol yn y ffordd rydym yn gweithio.

Cyflwynodd y Cynghorydd Morgan Tim Peppin, CLILC, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am waith y Panel Strategaeth Datgarboneiddio a ddatblygwyd yn wreiddiol ar gais PC.

Cyflwynodd Tim y pedwar maes allweddol a gynhwyswyd ym map llwybr Sero Net Cymru:

- Caffael
- Symudedd a thrafnidiaeth
- Adeiladau
- Defnydd tir

Cydnabuwyd bod llawer o waith eisoes ar y gweill ac nad oedd gwaith y Panel yn bwriadu ei ddyblygu.

Cyhoeddir y ddogfen Carbon Sero Net yn yr hydref, a mynegodd Tim ddiolch am y cyllid a alluogodd CLILC i ymgymryd â'r gwaith ar ran y 22 awdurdod. Bydd yr adroddiad yn cael ei ystyried gan Fwrdd Gweithredol CLILC ar 16 Gorffennaf.

Mae'r awdurdodau lleol yn gweithio tuag at COP 26 ond hefyd tuag at fersiwn Cymru o COP.

Trodd sylw'r drafodaeth wedyn at bwysigrwydd cael cyllid ac adnoddau i gyflawni'r targedau. Nodwyd costau sylweddol ar gyfer materion fel ôl-osod yn y stoc tai cyngor, gan rhoi sylw hefyd i welliannau o ran diogelwch tân a'r angen i adeiladu cartrefi newydd ychwanegol. Mae angen help i adeiladu cadwyni cyflenwi lleol, gan roi hyder i fusnesau lleol dyfu a helpu i greu swyddi ar gyfer adferiad gwyrdd. Nodwyd heriau hefyd mewn perthynas ag eiddo preifat a pherchen-feddianwyr, a'r cynnydd sydd ei angen yn y grantiau sydd ar gael i awdurdodau eu rhoi i berchnogion.

Cytunodd y Gweinidog mai'r materion sy'n ymwneud â thai oedd un o'r heriau mwyaf o ran y gwaith hwn ac awgrymodd y dylid gwahodd y Gweinidog Newid Hinsawdd i gyfarfod yn y dyfodol ar gyfer eitem agenda ar ddatgarboneiddio gan fod ei phortffolio'n cwmpasu newid yn yr hinsawdd a thai.

**CAM GWEITHREDU:** Gwahodd y Gweinidog Newid Hinsawdd i gyfarfod yn y dyfodol ar gyfer eitem agenda ar ddatgarboneiddio.

Nododd y Gweinidog hefyd mor bwysig oedd cyfrifoldeb unigolion, ac maei'r ffordd orau o ddylanwadu ar leihau allyriadau carbon yw drwy weithredoedd personol.

Cytunwyd bod Cymru'n arwain y byd mewn nifer o feysydd, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a'r ffaith mai hi yw'r genedl gyntaf yn y DU i godi tâl am fagiau plastig. Roedd parodrwydd llywodraeth leol i ddod at ei gilydd ar fater newid yn yr hinsawdd a'r gefnogaeth drawsbleidiol a ddangoswyd yn nigwyddiad diweddar CLILC yn gyfle i ddod ag arferion da at ei gilydd ledled Cymru i gryfhau ymdrech pawb.

Croesawyd cyfranogiad Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol Cymru yn y Panel Strategaeth Datgarboneiddio, a chytunwyd hefyd y byddai'r cyfle i ddeall mwy am ddull Parciau Cenedlaethol y DU yn ddefnyddiol.

### **Eitem 5 – Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol – Gweithredu'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol**

Diolchodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol i'r aelodau am y cyfle i fynychu'r cyfarfod a thrafod y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol. Roedd y Gweinidog am gael cymaint o ymgysylltu â phosibl ar y mater ac anogodd yr holl gyrff cyhoeddus i ymateb i'r ymgynghoriad ar y Cynllun a lansiwyd ar 24 Mawrth, gan ddod i ben ar 15 Gorffennaf.

Disgrifiodd y Gweinidog sut y lluniwyd y cynllun mewn ffordd arloesol, gan sicrhau bod y rhai sydd â phrofiad uniongyrchol yn cael eu cynnwys – pobl sydd â phrofiad o hiliaeth yn eu bywydau neu yn eu cymunedau, ar hyn o bryd neu yn y gorffennol. Roedd y pandemig Covid-19 wedi effeithio'n anghymesur ar bobl BAME ac roedd hyn yn golygu bod brys i ddatblygu'r cynllun, a gydgyhyrchwyd gyda phobl BAME a hefyd gydag undebau llafur, ymhlith eraill. Pwysleisiodd y Gweinidog ei hymrwymiad i gymryd camau ystyrlon ar y Cynllun Gweithredu a sicrhau nad oedd bwch rhwng y dogfennau polisi a'u gweithredu. Mae gan bob cyd-Weinidog gamau gweithredu o fewn y Cynllun, y maent yn gyfrifol am eu datblygu. Anogodd y Gweinidog aelodau'r Cyngor Partneriaeth i ymgysylltu â'r grŵp llywio, a oedd yn cael ei gyd-gadeirio gan Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru, fel y gallai cydweithwyr, gyda'i gilydd, helpu i greu'r Gymru wrth-hiliol yr ydym yn ymdrechu i'w sicrhau, lle mae pobl a chymunedau'n ffynnu.

Dywedodd y Cynghorydd Jane Mudd ei bod yn awyddus iawn i weithio gyda Llywodraeth Cymru ar hyn, ac amlinellodd rai o'r camau a gymerwyd gan gynnwys newid rôl Llefarydd CLILC i fod yn Arweinydd yn ogystal â chynnwys nifer o ddirprwy arweinwyr i gefnogi'r gweithredu. Diolchodd y Cynghorydd Mudd i'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol am gytuno i ymuno â chyfarfod CLILC drannoeth i drafod ymhellach a helpu i barhau â'r momentwm.

Cadarnhaodd Alun Michael hefyd yr ymrwymiad y maes plismona i weithio gyda Llywodraeth Cymru, dan arweiniad Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu, ac a oedd yn cael ei adlewyrchu hefyd yn yr ymgyrch Mae Bywydau Du o Bwys.

Cytunodd y Gweinidog bod gwaith y Bwrdd Partneriaeth Plismona yn bwysig. Mae hwn hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o lywodraeth leol, ac mae'n helpu i hybu cydlyniant cymunedol. Soniodd y Gweinidog am bwysigrwydd yr holl gyfleoedd i hyrwyddo ein Cymru gynhwysol a hynod amrywiol. Roedd y Gweinidog wedi cyfarfod â grŵp ffoaduriaid a cheiswyr lloches y bore hwnnw ac roedd yn falch bod Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol a'r sector gwirfoddol yn cydweithio i wneud gwahaniaeth pwysig i fywydau pobl. I gloi, pwysleisiodd y Gweinidog y disgwyliadau yn lleol ac yn genedlaethol i wasanaethau cyhoeddus weihio gyda'i gilydd i gyflawni'r Cynllun.

## **Eitem 6 – Blaenoriaethau i Gyngor Partneriaeth Cymru**

Trafododd yr Aelodau flaenoriaethau a rennir ar gyfer blaengynllun gwaith a chytunwyd hefyd ar eitemau sefydlog ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol, a fyddai'n cynnwys yr holl bartneriaid fel y bo'n briodol.

Cytunwyd:

- Na fydd Pontio'r UE bellach yn eitem sefydlog.
- Bod datgarboneiddio yn parhau i fod yn eitem sefydlog.
- Y byddai eitem sefydlog newydd ar Adferiad yn cael ei chynnwys ym mhob cyfarfod yn y dyfodol. Cytunwyd y byddai'r eitem hon yn cynnwys nifer o themâu i weithio ar y cyd arnynt, gan gynnwys ymhlith eraill adferiad iechyd a gofal cymdeithasol ac adferiad economaidd. Byddai'r Gweinidogion perthnasol yn cael eu gwahodd i ymuno â'r aelodau, a byddai ffrydiau gwaith yn cael eu datblygu i fwrw ymlaen â gwaith neu i'w oruchwylio yn y meysydd hyn, yn ôl y gofyn.

### **Unrhyw Fater Arall**

Tynnodd y Gweinidog sylw'r Aelodau at y ffaith y byddai dau ymgynghoriad yn cael **eu lansio'n fuan mewn perthynas â Chyd-bwyllgorau Corfforedig – un ar *Ganllawiau Statudol Drafft ar Sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig* ac un arall ar *Reoliadau Cyffredinol Drafft Cyd-bwyllgorau Corfforedig*.**

Diolchodd y Gweinidog i'r holl aelodau am eu hamser a'u cyfraniad gwerthfawr, gan ddweud nad yw dyddiadau cyfarfodydd y dyfodol wedi'u trefnu eto ond awgrymodd y dylid parhau â'r patrwm chwarterol, gan dreulio amser yn rhagweld y themâu adfer.